Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau bro gan ysgolion

Mai 2008

Iechyd ar Waith – Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

**© Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


**Cyflwyniad** **1**

Cefndir 1

**Prif ganfyddiadau** **4**

**Argymhellion** **6**

**Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau bro gan ysgolion** **7**

Darpariaeth gwasanaethau bro a’r defnydd o gyllid grant 7
Darpariaeth mewn ysgolion unigol 9
Gwaith grwpiau clwstwr Ysgolion Bro (YB) 9
Y prif fanteision i’r gymuned 10
Cydlynu gwaith YB 10
Strategaethau YB awdurdodau lleol 11
Rhannu gwybodaeth a chael gwared ar y rhwystrau rhag cynnydd 11

**Atodiad 1: Astudiaethau achos** **13**

Rhagymadrodd 13

**Atodiad 2: Dosraniad cyllid YB i ysgolion mewn awdurdodau lleol unigol** **20**

## Cyflwyniad

1 Diben yr adroddiad hwn yw rhoi arfarniad i Lywodraeth Cynulliad o ba mor dda y mae ysgolion ac awdurdodau lleol yn defnyddio'r grant ysgolion bro. Mae amcanion y grant hwn, ynghyd â'r trefniadau ar gyfer ei ddosbarthu, ei weinyddu a'i archwilio, wedi'u hamlinellu yng Nghylchlythyr Rhif 31/05 Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

2 Mae sail y dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad yn cynnwys:

- dadansoddiad o adroddiadau cynnydd diwedd blwyddyn awdurdodau lleol ar gyfer 2006-2007;
- dadansoddiad o ymatebion awdurdodau lleol i holiadur a ddosbarthwyd gan Estyn;
- gwybodaeth a ddarparwyd gan ContinYou Cymru;
- ymweliadau arolygwyr â phum awdurdod lleol;
- ymweliadau arolygwyr â sampl o ysgolion a lleoliadau bro eraill yn y pum awdurdod lleol;
- dogfennaeth ychwanegol yn ymwneud â gwaith YB yn y pum awdurdod lleol.

3 Dewisodd Estyn y pum awdurdod lleol yr ymwelodd arolygwyr â nhw ar sail y dystiolaeth o'u potensial i ddarparu enghreifftiau o ddatblygiadau diddorol ar gyfer yr astudiaethau achos sydd wedi'u cyhoeddi yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn.

### Cefndir

4 Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Awst 2001 yn ddogfen ymbaratoi, yn nodi ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i roi ysgolion wrth galon eu cymunedau:

> *"Rydym am weld perthynas agosach o lawer rhwng ysgolion a'r cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rydym am i ysgolion weithredu fel adnodd yn y gymuned – nid yn ystod oriau ysgol yn unig ond y tu allan i oriau ysgol ac yn ystod y gwyliau hefyd. Fe'u gwelwn fel rhan annatod o adeiladu gallu cymunedol – gan ddarparu sylfaen ar gyfer cyflwyno nid yn unig addysg a hyfforddiant (gyda chysylltiadau â sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch), ond hefyd ystod o wasanaethau eraill fel cynhaliaeth deuluol a hybu iechyd a menter." (Y Wlad sy'n Dysgu, paragraff 35.)*

5 Mae 'Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith' yn ailddatgan amcan Llywodraeth Cynulliad Cymru o wneud pob adeilad ysgol yn addas at ei ddiben, ac yn benodol, ei hymrwymiad i "hyrwyddo ysgolion yn ffocws ar gyfer y gymuned leol, sy'n darparu cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau y tu allan i oriau ysgol (addysgol ac fel arall) ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol, gan gynnwys grwpiau gwirfoddol lleol; ac yn sylfaen ar gyfer gwasanaethau eraill."

6 Mae Adrannau 27 a 28 Deddf Addysg 2002, a ddaeth i rym ar 1 Medi 2003, yn rhoi pwerau i gyrff llywodraethol ddarparu gwasanaethau ar gyfer disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned leol, a chynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn haws i ysgolion ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau o'r fath.

7 Ym mis Rhagfyr 2003, amlinellodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei pholisi ar gyfer ysgolion bro yng Nghylchlythyr Rhif 34/2003 Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cylchlythyr yn rhoi arweiniad i ysgolion a'u partneriaid allweddol ar sut y gallant wneud defnydd o bwerau newydd cyrff llywodraethol i ddatblygu gwasanaethau i helpu bodloni anghenion eu disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach. Mae'r Cylchlythyr yn diffinio ysgol fro fel "ysgol sy'n darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau, yn aml y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, i helpu bodloni anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a'r gymuned ehangach."

8 Mae Cylchlythyr Rhif 34/2003 yn cydnabod bod llawer o ysgolion ledled Cymru eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol. Mae'n cynnig arweiniad i ysgolion a'u partneriaid ar sut y gallant adeiladu ar ddarpariaeth bresennol ac ystyried pa wasanaeth neu weithgareddau ychwanegol y gallent eu cynnig. Mae'n pwysleisio nad oes glasbrint ar gyfer y mathau o weithgareddau y gall ysgolion eu darparu, na sut y gellir eu trefnu. Mae'r Cylchlythyr yn annog ysgolion i weithio gyda phartneriaid lleol, gan gynnwys ysgolion eraill, grwpiau cymunedol a'r awdurdod lleol, i ddatblygu pa ddarpariaeth bynnag y gallent ei hystyried yn addas ar gyfer eu cymuned eu hunain.

9 Ym mis Medi 2005, cyhoeddwyd Cylchlythyr Rhif 31/05 Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r Cylchlythyr hwn yn rhoi arweiniad ar y meini prawf ar gyfer defnyddio Grant Ysgolion Bro Llywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005/06 ac ar ôl hynny. Gweinyddir y grant gan yr awdurdodau lleol ac mae ar gael i gefnogi prosiectau sy'n amlwg wedi'u cysylltu â chysyniad ysgol fro. Rhaid i'r prosiectau a gefnogir gan y grant fodloni un o'r meini prawf canlynol:

*i. bod yn brosiect a fydd yn arwain at fwy o ddatblygiadau bro nad ydynt yn cael eu hariannu o dan y grant hwn; neu*

*ii. bod yn brosiect enghreifftiol sy'n arloesol ac y gellir ei ddefnyddio fel model o arfer dda ar gyfer ysgolion neu awdurdodau lleol eraill; neu*

*iii. bod yn brosiect sy'n cynnwys costau 'dechrau' yn unig gydag unrhyw gostau rhedeg parhaus yn cael eu talu o gyllid arall neu o ffioedd.*

10 O dan y cytundeb gyda Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru, fe wnaeth y 22 awdurdod lleol yng Nghymru ariannu ContinYou Cymru am gyfnod o 18 mis, gan ddod i ben ym mis Mawrth 2007, i roi cymorth ar gyfer datblygu ysgolion bro. Comisiynwyd ContinYou Cymru gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar ôl hynny i weithio gydag awdurdodau lleol ac ysgolion o fis Ebrill 2007 i:

- gynnig cymorth ac arweiniad;
- datblygu gallu ac arbenigedd;

- osgoi dyblygu ymdrech;
- rhannu arfer dda; a
- hyrwyddo rhwydweithio a chynhyrchu deunyddiau ac adnoddau y gellir eu cymhwyso a'u haddasu yn ôl anghenion lleol gwahanol.

## Prif ganfyddiadau

11 Mae cyllid grant ysgolion bro (YB) wedi galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i adeiladu ar eu harfer bresennol, ac mae wedi ysgogi rhai mentrau a datblygiadau gwerth chweil. Mewn rhai awdurdodau lleol, lleihawyd effaith y cyllid trwy ei ddyrannu i ormod o ysgolion. Yn yr awdurdodau hyn, mae'r cyllid wedi cael ei wasgaru'n rhy denau i gefnogi prosiectau peilot uchelgeisiol. Yn hytrach, mae wedi tueddu i ddarparu ychwanegiad ariannol bach ar gyfer nifer fawr o'r cynlluniau presennol.

12 Mae'n amlwg bod y prosiectau sy'n derbyn cyllid wedi'u cysylltu'n glir â chysyniad o YB yn unol â'r hyn a ddiffinnir yng Nghylchlythyr 34/2003. Fodd bynnag, mae'n debygol na fydd niferoedd sylweddol o brosiectau yn bodloni unrhyw un o'r tri maen prawf penodol ar gyfer cyllid. Dim ond lleiafrif bach o brosiectau sy'n haeddu cael eu hystyried yn rhagorol, yn arloesol neu'n fodelau o arfer dda. Mae'n annhebygol y bydd llawer o'r prosiectau eraill yn parhau heb ragor o gyllid grant. Mae ansicrwydd ynglŷn â threfniadau cyllid YB yn y dyfodol wedi ei gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy.

13 Wrth ddosbarthu eu cyfran o'r grant YB, prin yw'r awdurdodau lleol sydd wedi blaenoriaethu ysgolion yn eu hardaloedd mwyaf difreintiedig er eu bod fel arfer wedi targedu eu hymdrechion i sefydlu canolfannau gwasanaeth integredig yn eu cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae ContinYou Cymru a Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru wedi cyhoeddi gweledigaeth ar y cyd sy'n amlinellu ystod darpariaeth yr YB y gellir trefnu ei bod ar gael. Mae amrywiaeth eang y ddarpariaeth YB ledled Cymru yn amrywio o weithgareddau sylfaenol, sy'n canolbwyntio'n bennaf ar wella dysgu disgyblion ysgolion, i ganolfannau cymunedol lleol sy'n gallu cynnig gwasanaethau integredig sy'n cynnwys nifer o asiantaethau. Fodd bynnag, mae'r amrywiaeth eang hon yn golygu bod y manteision i ddisgyblion a'r gymuned ehangach wedi amrywio hefyd. Dim ond rhai cynlluniau sy'n sylweddoli potensial llawn YB i ddod â manteision sylweddol i'w cymuned leol. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn rhai cymunedau yn mwynhau llawer mwy o fynediad at ddysgu y tu allan i oriau a gwasanaethau eraill nag yn rhywle arall.

14 Ledled Cymru gyfan, y brif fantais i gymunedau lleol yw gwella mynediad at adeiladau ac adnoddau ysgolion, yn enwedig ar gyfer ymarfer corff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Gwelwyd gwelliant hefyd yn y berthynas rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol. Mae gwaith partneriaeth effeithiol gydag ystod o asiantaethau lleol yn nodwedd dda ar rywfaint o'r ddarpariaeth YB fwyaf llwyddiannus.

15 Caiff strategaethau YB awdurdodau eu cydlynu a'u rheoli yn effeithiol gan gydlynwyr YB lle bydd hyn yn brif gyfrifoldeb iddynt. Mae'r cydlynu yn llai effeithiol pan gaiff ei roi yn gyfrifoldeb ychwanegol i dimau presennol o swyddogion awdurdod lleol. Mewn llawer o awdurdodau, mae'r broses o gydlynu gweithgareddau YB ysgolion, naill ai drwy weithio'n unigol neu mewn clystyrau, yn aneffeithiol neu'n wan. O ganlyniad, mae'r gweithgareddau yn cael eu dyblygu mewn modd di-fudd, mae effaith hyn yn ofer, neu nid yw gweithgareddau YB yn cyd-fynd yn dda ag anghenion y gymuned ehangach.

16 Dim ond rhai awdurdodau lleol sydd â strategaethau YB sy’n cael eu hymgorffori’n glir ac yn gydlynus ym mlaenoriaethau, polisïau a chynlluniau strategol y cyngor yn gyffredinol. Yn yr awdurdodau eraill, collir cyfleoedd am gynllunio strategol a gweithgaredd gweithredol mwy cydlynus. Nifer fach iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cysylltu eu strategaethau YB â’u cynlluniau ad-drefnu ysgolion. Mae rhai o’r awdurdodau eraill yn credu bod eu gallu i wneud y cyswllt hwn yn cael ei gyfyngu gan y dull cyfredol o fesur capasiti ysgol.

17 Safbwynt cymharol gyfyng sydd gan lawer o adrannau addysg awdurdodau lleol am waith amlasiantaethol. Fel arfer, nid oes ganddynt drefniadau partneriaeth effeithiol gydag gwasanaethau iechyd cymunedol a gwasanaethau cymdeithasol.

18 Mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi cael cymorth ac arweiniad da gan ContinYou Cymru wrth ddatblygu eu rhaglenni YB. At ei gilydd, maent wedi gweithredu ar yr arweiniad hwn yn effeithiol. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol system gadarn ar gyfer asesu risg i nodi a chywiro problemau yn ymwneud â defnydd y gymuned o’i adeiladau ysgol. Nid yw’r rhan fwyaf o’r awdurdodau lleol yn monitro ac yn arfarnu eu cynnydd wrth sefydlu ysgolion bro effeithiol. O’r herwydd, nid ydynt yn gallu gosod targedau ar gyfer gwella na bwydo gwybodaeth i mewn i’w cynllunio ar gyfer y dyfodol.

## Argymhellion

19 Er mwyn cynyddu effeithiolrwydd gweithgaredd YB yng Nghymru, dylid rhoi'r argymhellion canlynol ar waith.

**Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:**

A1 egluro trefniadau cyllid y dyfodol ar gyfer YB a sicrhau bod y trefniadau yn cefnogi cynllunio tymor canolig a thymor hir awdurdodau lleol;

A2 sicrhau bod y trefniadau cyllid yn y dyfodol yn hyrwyddo amcanion YB Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fwy sicr;

A3 atal cyllid o unrhyw brosiect YB nad yw'n bodloni'r meini prawf a nodwyd ar gyfer dyrannu'r grant; a

A4 sicrhau bod cyfrifiadau o leoedd ysgol dros ben ac anghenion adeiladau ysgolion newydd yn rhoi ystyriaeth lawn i'r cyfleusterau y gallai fod eu hangen ar gyfer gweithgareddau YB.

**Dylai awdurdodau lleol:**

A5 sicrhau eu bod yn ymgorffori eu strategaethau YB yn gadarn mewn blaenoriaethau, polisïau a chynlluniau corfforaethol;

A6 gweithio'n agosach gyda phartneriaid strategol allweddol, yn enwedig iechyd a gwasanaethau cymdeithasol;

A7 gwneud trefniadau addas ar gyfer cydlynu gweithgareddau YB yn effeithiol mewn ysgolion;

A8 gwneud asesiadau risg effeithiol o'r defnydd cymunedol a wneir o'u hadeiladau ysgol a datrys unrhyw faterion a godir; a

A9 gwneud trefniadau addas i fonitro cynnydd ac arfarnu effeithiolrwydd eu gweithgaredd YB.

**Dylai ysgolion:**

A10 ddwysáu eu hymdrechion i weithio gyda theuluoedd i wneud dysgu yn ddymunol ar gyfer pobl o bob oed;

A11 dwysáu eu gwaith i wella eu henw yn y gymuned leol a phwysleisio gwerth cyfleoedd addysgol; a

A12 chynyddu mynediad cymunedol at eu cyfleusterau.

## Darpariaeth gwasanaethau a chyfleusterau bro gan ysgolion

### Darpariaeth gwasanaethau bro a'r defnydd o gyllid grant

20 Cyn cyflwyno'r grant YB, roedd llawer o ysgolion ledled Cymru eisoes wedi sefydlu gweithgareddau YB. Mae'r cyllid grant YB y trefnwyd ei fod ar gael rhwng 2005 a 2008 wedi bod yn ddefnyddiol wrth alluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i adeiladu ar eu harfer bresennol, ac mae wedi ysgogi rhai mentrau newydd a datblygiadau ychwanegol. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, dim ond lleiafrif o ysgolion sydd wedi elwa'n uniongyrchol ar gyllid grant YB. Er hynny, mae llawer o ysgolion eraill yn yr awdurdodau lleol hyn yn parhau i gynnig darpariaeth YB o'u hadnoddau eu hunain ac/neu adnoddau eraill. Mewn rhai awdurdodau lleol eraill, lleihawyd effaith cyllid YB trwy ei ddyrannu i ormod o ysgolion. Yn yr awdurdodau hyn, mae'r cyllid wedi cael ei wasgaru'n rhy denau i gefnogi prosiectau peilot uchelgeisiol sydd â ffocws clir ar y prif dargedau yng nghynlluniau addysgol yr awdurdod. Yn hytrach, mae wedi tueddu i ddarparu ychwanegiad ariannol bach ar gyfer nifer fawr o gynlluniau presennol. Mae Atodiad 2 yn darparu enghreifftiau o gyfrannau'r ysgolion sy'n derbyn cyllid grant YB mewn 13 awdurdod lleol.

21 Mae'r adroddiadau cynnydd diwedd blwyddyn a gyflwynodd awdurdodau lleol i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2007 yn dangos bod ystod eang ac amrywiol o ddarpariaeth fro yn yr ysgolion a'r awdurdodau lleol hynny a elwoddar grant YB Llywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r amrywiaeth hon o ddarpariaeth yn gyson â'r arweiniad yng Nghylchlythyr 34/03, sy'n datgan:

> *"Nid oes glasbrint ar gyfer y mathau o weithgareddau y gall ysgolion eu darparu, nac ar gyfer sut y gellid eu trefnu. Gan gydweithio â phartneriaid lleol, gall ysgolion ddatblygu darpariaeth o faint priodol ar gyfer eu cymuned eu hunain."*

22 Mae amrywiaeth o ddarpariaeth hefyd yn gyson ag 'Ysgolion bro – gweledigaeth ar y cyd', a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a ContinYou Cymru yn 2005. Roedd y ddogfen hon yn amlygu awydd y naill sefydliad a'r llall i ddarparu fframwaith ar gyfer datblygu ysgolion bro ledled Cymru "sy'n hyblyg ond yn tynnu sylw at botensial ac ehangder posibl y ddarpariaeth".

23 Mae'n amlwg yn briodol y dylai darpariaeth YB fod yn ddigon hyblyg i fodloni anghenion lleol. Fodd bynnag, yn ymarferol, mae'r hyblygrwydd hwn yn aml yn arwain at ddarpariaeth amrywiol, lle dim ond rhai cynlluniau yn unig sy'n gwireddu potensial llawn YB i ddod â manteision sylweddol i'w cymuned leol. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr mewn rhai cymunedau yn cael llawer mwy o fynediad at ddysgu y tu allan i oriau a gwasanaethau eraill nag yn rhywle arall.

24 Mae Cylchlythyr 31/05 yn datgan, i fod yn gymwys am gyllid YB, y dylai fod gan brosiectau gyswllt clir ac eglur â'r cysyniad o ysgol fro yn unol â'r hyn a amlinellir yng Nghylchlythyr 34/2003 a bod yn rhaid iddynt fodloni un o'r meini prawf canlynol:

- bod yn brosiect a fydd yn arwain at fwy o ddatblygiadau bro nad ydynt yn cael eu hariannu gan grant YB; neu

- fod yn brosiect enghreifftiol sy'n arloesol ac y gellir ei ddefnyddio yn fodel arfer dda ar gyfer ysgolion neu awdurdodau lleol eraill; neu

- fod yn brosiect sy'n cynnwys costau dechrau yn unig gydag unrhyw gostau rhedeg parhaus yn cael eu talu o gyllid arall neu o ffioedd.

25 At ei gilydd, mae'n amlwg bod y prosiectau sy'n cael cyllid wedi'u cysylltu â'r cysyniad o YB yn unol â'r hyn a ddiffinnir yng Nghylchlythyr 34/2003. Fodd bynnag, mae angen gweld o hyd a yw pob un o'r prosiectau yn bodloni o leiaf un o'r tri maen prawf penodol. Mae'r gweithgareddau ym mwyafrif helaeth y prosiectau yn dilyn patrymau sefydledig ac maent yn aml yn cael eu hefelychu mewn ysgolion neu awdurdodau lleol eraill. Dim ond lleiafrif bach o brosiectau, felly, sy'n haeddu gallu honni eu bod yn 'enghreifftiol', yn 'arloesol' neu'n 'fodel o arfer dda'. Bydd y ddau faen prawf arall ond yn cael eu bodloni os yw prosiectau neu ddatblygiadau YB yn parhau ar ôl i'r cyllid grant ddod i ben. Mae ymatebion y rhan fwyaf o awdurdodau lleol i holiadur Estyn yn mynegi'r farn na fydden nhw a'u hysgolion yn gallu cynnal gweithgaredd YB ar lefelau cyfredol heb y cyllid grant. Mae rhai o'r ymatebion yn cynnwys barn fwy optimistaidd am botensial ysgolion ac awdurdodau lleol i ddod o hyd i lefel gyfwerth o gyllid o ffynonellau eraill. Cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ddiweddar y byddai cyllid ar gael am dair blynedd arall o fis Ebrill 2008. Fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o ran trefniadau cyllid YB yn y dyfodol wedi'i gwneud yn anodd i awdurdodau lleol gynllunio ar gyfer y tymor canolig a'r tymor hwy. Mewn un awdurdod lleol, mae'r ansicrwydd hwn wedi gwaethygu gan yr hyn y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn derfynau amser anhyblyg ar gyfer gwario'r grant a'r anallu i ddwyn rhywfaint o'r cyllid ymlaen.

26 Fe wnaeth Cylchlythyr 31/05 gynghori awdurdodau lleol i roi ystyriaeth benodol i ariannu prosiectau YB a oedd yn cynnwys gwaith ieuenctid a/neu fentrau a gefnogir yn yr ardal, fel Menter Blaenau'r Cymoedd, Rhaglenni Cymunedau yn Gyntaf a Rhaglenni Amcan 1. Mae mwyafrif helaeth yr awdurdodau lleol wedi ymglymu â Chymunedau yn Gyntaf fel un o'u prif bartneriaid yng ngwaith YB. Mae rhai prosiectau yn cefnogi mentrau eraill yn yr ardal. Nifer fach iawn o'r prosiectau a ariennir yn 2006-2007 oedd yn cynnwys gwaith ieuenctid, er bod hwn yn fuddiolwyr amlwg o ran cyllid YB mewn un awdurdod lleol.

27 Roedd Cylchlythyr 31/05 yn ei gwneud yn glir bod cwmpas i YB helpu mynd i'r afael ag anfantais a throsedd, ac yn annog awdurdodau i ystyried cysylltiadau â strategaethau perthnasol eraill, fel cynllun datblygiad cymunedol yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, wrth ddosbarthu eu cyfran o grant YB, mae rhai awdurdodau lleol wedi blaenoriaethu ysgolion yn eu hardaloedd mwyaf difreintiedig. Ym mis Ebrill 2006, rhyddhaodd Llywodraeth Cynulliad Cymru grant dwy flynedd o £32 miliwn i 'wella cyrhaeddiad a safonau unigol mewn addysg' (RHAGORI) disgyblion dan anfantais. Yn yr ysgolion sy'n elwa ar y grant hwn, mae gan o leiaf 20% o ddisgyblion hawl i brydau ysgol am ddim. Mewn dau awdurdod lleol, mae'r rhan fwyaf o ysgolion sy'n elwa ar gyllid YB hefyd yn derbyn cyllid RHAGORI. Mewn pum awdurdod arall, mae rhywfaint o gydberthyniad rhwng ysgolion sydd wedi'u dynodi yn YB a'r rheiny sy'n cael cyllid RHAGORI. Yng ngweddill yr awdurdodau, ychydig iawn o gydberthyniad os o gwbl, a geir rhwng YB ac ysgolion a ariennir gan RHAGORI.

**Darpariaeth mewn ysgolion unigol**

28 Yn y mwyafrif helaeth o awdurdodau lleol, caiff holl waith neu bron holl waith yr YB ei wneud gan ysgolion unigol ar eu safleoedd eu hunain, gan ddefnyddio eu hadnoddau eu hunain yn bennaf. Mae modd gosod gwaith y rhan fwyaf o'r ysgolion unigol hyn yn un o'r categorïau canlynol.

a) Lefel ofynnol y ddarpariaeth, lle mae'r ysgol yn bennaf yn darparu cymorth a/neu weithgareddau ymestyn ar gyfer ei disgyblion ei hun, er enghraifft, dysgu y tu allan i oriau dysgu, gan gynnwys cymorth astudio.
b) Yn ogystal ag (a), mae'r ysgol yn ymgysylltu â theuluoedd yn bennaf er mwyn gwella eu gallu i gefnogi dysgu eu plant, er enghraifft, trwy gynnig dysgu teuluol a/neu ofal plant.
c) Yn ogystal ag (a) a (b), mae'r ysgol yn ceisio cynnwys disgyblion, eu teuluoedd ac oedolion eraill mewn ystod o weithgareddau dysgu cymunedol neu hamdden, gan gynnwys rhywfaint o weithgareddau ar draws cenedlaethau.

29 Yn ychwanegol, mae rhai ysgolion unigol yn darparu cyfleusterau ar gyfer aelodau o'r gymuned i gael mynediad at ddarpariaeth a gwybodaeth, er enghraifft, sy'n ymwneud â gwasanaethau eraill y cyngor, gofal plant, gofal iechyd a materion cyngor dinasyddion.

**Gwaith grwpiau clwstwr YB**

30 Mewn rhai awdurdodau lleol, mae ysgolion yn gweithio gyda'i gilydd mewn clystyrau i ddarparu ystod o wasanaethau mewn partneriaeth ag asiantaethau allanol. Caiff y trefniadau cydweithredol hyn fel arfer eu hwyluso a'u cefnogi gan gydlynydd YB sy'n gweithio'n lleol, sy'n gallu datblygu trosolwg o ddarpariaeth yn y gymuned ehangach. Mae'r cydlynydd YB mewn sefyllfa dda i sicrhau bod ysgolion a'u partneriaid yn gwneud y defnydd gorau o'r arbenigedd a'r adnoddau sydd ar gael, a'u bod yn osgoi dyblygu diangen o ran ymdrech a gweithgaredd. Mae'r cydlynydd hefyd mewn sefyllfa dda i hyrwyddo cysylltiadau tebyg a defnyddiol gyda mentrau lleol sy'n ategu YB, er enghraifft, gwaith eco-ysgolion, y strategaeth iechyd ysgolion, ac addysg gorfforol a chwaraeon ysgolion (AGChY). Mae rhai grwpiau clwstwr yn ffurfio sylfaen effeithiol ar gyfer darparu gwasanaethau integredig ar gyfer y gymuned leol, lle bydd canolfan integredig yn cynnig, neu fod ganddi'r potensial i gynnig 'canolfan un stop' ar gyfer addysg, iechyd, gofal cymdeithasol a gwasanaethau cymunedol cysylltiedig. Mae astudiaeth achos 4 yn rhoi enghraifft o ystod o wasanaethau sy'n cael eu darparu mewn canolfan gymunedol mewn ysgol.

31 Mae awdurdodau lleol fel arfer wedi targedu eu hymdrechion i sefydlu canolfannau gwasanaethau integredig yn eu cymunedau mwyaf difreintiedig. Mae un awdurdod yn sefydlu menter beilot mewn un ardal sydd, yn dibynnu ar ei llwyddiant, yn gobeithio ymestyn i ardaloedd eraill yn yr awdurdod. Mae'r awdurdod hwn wedi sefydlu strategaeth gwasanaethau ataliol ar gyfer plant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r strategaeth wedi sicrhau cymorth ac ymroddiad uwch reolwyr y prif ddarparwyr gwasanaeth. Cynrychiolir y darparwyr hyn ar grŵp strategol sy'n amrywio'n eang sy'n cynnwys gweithwyr proffesiynol o feysydd addysg, gwasanaethau cymdeithasol, iechyd, yr heddlu, y gwasanaeth troseddau ieuenctid, y sector gwirfoddol a grwpiau cymunedol. Mae'r grŵp yn datblygu dull cysylltiedig ar gyfer cyflwyno gwasanaethau ar lefel strategol ac ar lefel leol fel ei gilydd.

32 Mae'n amlwg bod y dull gwasanaeth integredig yn gofyn am ymgynghori, cyfathrebu a chydweithio effeithiol ymhlith yr asiantaethau partner ar bob lefel, ac yn enwedig mewn perthynas â rheolaeth strategol a gweithredol. Mae hefyd yn gofyn am ddiffiniad eang o waith amlasiantaethol.

## Y prif fanteision i'r gymuned

33 Y fantais fwyaf cyffredin a nodir gan awdurdodau lleol yn eu hadroddiadau diwedd blwyddyn yw mynediad gwell at adeiladau ac adnoddau ysgol i'w defnyddio gan aelodau o'r gymuned leol. Mae astudiaethau achos 2, 3, 4 a 5 yn Atodiad 1 yn rhoi enghreifftiau o fynediad cymunedol gwell. Mae sawl adroddiad diwedd blwyddyn, yn benodol, yn amlygu'r mynediad cynyddol at gyfleusterau ar gyfer ymarfer corff a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh). Mae astudiaeth achos 3 yn rhoi enghraifft dda o ddefnydd cymunedol o gyfleusterau TGCh ysgolion. Y fantais arall y sonnir amdani yn fwyaf cyffredin yw'r gwelliant mewn perthynas, cyfathrebu a dealltwriaeth ar y cyd rhwng ysgolion a'u cymunedau lleol. Mae pob un o'r pum astudiaeth achos yn rhoi enghreifftiau o welliannau o'r fath. Partneriaethau lleol effeithiol gydag ystod o asiantaethau sy'n cyfrif am lawer o'r gwaith gorau yn llwyddiant yr YB i raddau helaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r ddarpariaeth YB, er enghraifft, yn cynnwys cydweithio agos rhwng ysgolion ac asiantaethau lleol eraill. Mae sawl awdurdod, lle mae gwaith partneriaeth amlasiantaethol yn nodwedd amlwg ar ddarpariaeth YB, yn nodi bod yr agwedd hon o fantais fawr i'r cymunedau dan sylw.

34 Mae nifer o brosiectau ysgol unigol, gan gynnwys y rheiny a ddisgrifir yn astudiaethau achos 3 a 5, yn nodi gwelliannau meintiol ym mhresenoldeb ac ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gallu profi bod cysylltiad rhwng gweithgareddau YB a gwelliannau yng nghyrhaeddiad disgyblion ar hyn o bryd. Fodd bynnag, cynhaliodd rheolwr canolfan ddysgu mewn un awdurdod lleol ymchwiliad a nododd welliant mesuradwy yng nghyrhaeddiad disgyblion yn y dalgylchoedd ysgol mwyaf difreintiedig yn yr awdurdod lleol. Roedd maint y gwelliant hanner gradd TGAU neu fwy ar gyfer disgyblion a oedd un mynychu o leiaf un sesiwn cymorth astudio yn rheolaidd yn eu canolfan ddysgu leol.

## Cydlynu gwaith YB

35 Mae'r rheoliadau ariannu yn galluogi awdurdodau lleol i gadw cyfran o grant YB (hyd at uchafswm o 30% neu £30,000 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf) ar gyfer eu rôl datblygiad strategol ganolog. Mae pob un o'r awdurdodau ac eithrio ambell un wedi cadw'r swm llawn a ganiateir ac maent wedi dyrannu'r rhan fwyaf neu'r cyfan ohono i helpu ariannu gwaith cydlynwyr, rheolwyr neu swyddogion gwella YB. Mae rhai awdurdodau lleol wedi defnyddio'r elfen hon o'r grant i ariannu penodi cydlynwyr YB amser llawn. Mae awdurdodau lleol eraill wedi ychwanegu cydlynu gweithgareddau YB at gyfrifoldebau eu tîm presennol o swyddogion gwella ysgolion. Mae'n anodd i'r swyddogion hyn roi digon o amser i gefnogi ysgolion yn eu gweithgareddau YB ac i hyrwyddo'r broses o ddatblygu dull strategol cydlynus ar gyfer gwaith YB yn yr awdurdod lleol. Mewn un awdurdod lleol, mae tîm gweithredu sy'n cael ei staffio gan swyddogion o'r gwasanaeth dysgu gydol oes yn rheoli'r strategaeth YB. Er bod ysgolion yn gwerthfawrogi'r cymorth a ddarperir gan y tîm hwn, nid yw'r tîm yn gallu

dylanwadu ar gynllunio, gan nad yw'n ffurfio rhan o'r broses cynllunio strategol, ac ymddengys ei fod yn gweithio ar wahân i weithgaredd a chynllunio grwpiau partneriaeth cysylltiedig.

36 Mae llawer o grwpiau clwstwr ysgolion YB wedi gwneud trefniadau addas i gynnwys ystod o bartneriaid cymunedol yn y broses o oruchwylio gwaith y clwstwr. Mae'r grwpiau clwstwr hyn yn ymgysylltu â phartneriaid lleol a chynrychiolwyr cymunedol i sefydlu a chyfeirio gwaith y clwstwr, gan gynnwys, mewn rhai achosion, ffurfio bwrdd rheoli'r clwstwr. Mae un awdurdod lleol wedi sefydlu bwrdd rheoli YB canolog i oruchwylio gwaith ei holl glystyrau YB. Mae'r trefniant hwn yn galluogi pob un o'r partneriaid ar y bwrdd i gael golwg eang ar ddarpariaeth YB ar ledled ardal gyfan yr awdurdod lleol. Caiff rheolaeth weithredol YB ei dirprwyo'n bennaf i weithwyr clwstwr lleol. Mae'r trefniant hwn yn effeithiol ar y cyfan, ond nid yw'n galluogi'r awdurdod i gadw cofnodion canolog cyfoes, gan gynnwys gwybodaeth fanwl am gyfranogiad ysgolion unigol.

## Strategaethau YB awdurdodau lleol

37 Mae'r rhan fwyaf o'r awdurdodau lleol wedi sicrhau cymeradwyaeth y cyngor am eu strategaethau YB, fel arfer yng nghyd-destun blaenoriaethau, polisïau a chynlluniau addysgol y cyngor. Mae rhai awdurdodau yn ystyried bod gweithgaredd YB yn ategu prif flaenoriaethau'r cyngor ar gyfer addysg, tra bod eraill yn ystyried bod eu strategaeth YB yn agwedd hanfodol ar weledigaeth yr awdurdod ar gyfer addysg. Dim ond nifer fach o awdurdodau lleol sydd â strategaethau YB sydd wedi cael eu hymgorffori'n glir ac yn gydlynus ym mlaenoriaethau, polisïau a chynlluniau strategol y cyngor yn gyffredinol. Yr awdurdodau hyn yn bennaf sydd wedi targedu eu gwaith YB yn effeithiol i fodloni anghenion eu cymunedau mwyaf difreintiedig.

38 Nifer fach iawn o awdurdodau lleol sydd wedi cysylltu eu strategaethau YB â'u cynlluniau ar gyfer ad-drefnu ysgolion. Nid yw mwyafrif helaeth yr awdurdodau, felly, yn gallu manteisio ar y cyfleoedd y gall cynlluniau ad-drefnu ysgolion eu cynnig, er enghraifft, trwy wneud yn siŵr bod unrhyw adeiladau a chyfleusterau ysgol newydd yn cael eu cynllunio i gynnig yr ystod lawnaf posibl o weithgaredd YB, neu drwy wneud defnydd mwy effeithiol o adeiladau y mae awdurdodau lleol yn berchen arnynt, neu rannau o adeiladau, nad oes eu hangen ar ysgolion. Mae rhai awdurdodau lleol o'r farn nad yw'r fformiwla gyfredol ar gyfer cyfrifo gallu ysgolion yn rhoi digon o ystyriaeth i'r potensial ar gyfer defnydd cymunedol o adeiladau ysgolion.

39 Mae awdurdodau lleol yn gweithio gydag ystod eang o bartneriaid, gan gynnwys, yn benodol, sefydliadau sector gwirfoddol a chyhoeddus, i hyrwyddo gweithgaredd YB. Mae partneriaethau â'r sector preifat yn llai cyffredin. Safbwynt cymharol gyfyng sydd gan lawer o adrannau addysg awdurdodau lleol ar waith amlasiantaethol. Fel arfer, nid oes ganddynt drefniadau partneriaeth effeithiol gydag adrannau eraill y cyngor, fel y gwasanaethau cymdeithasol, na gydag asiantaethau iechyd lleol.

## Rhannu gwybodaeth a chael gwared ar y rhwystrau rhag cynnydd

40 Yn eu hadroddiadau diwedd blwyddyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru, nododd awdurdodau lleol nifer o faterion yr oedd yn rhaid iddyn nhw a'u hysgolion eu datrys er mwyn datblygu gwaith YB. Roedd y rhwystrau y bu'n rhaid iddynt eu goresgyn yn

cynnwys materion yn gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, gwaith gofalwr a glanhau, amddiffyn plant, hygyrchedd yr adeiladau, a thelerau ac amodau staff. Mae ‘Gwneud Iddo Ddigwydd’, sef y pecyn canllawiau y mae ContinYou Cymru wedi’i ddatblygu mewn cydweithrediad â Chymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn mynd i’r afael â’r rhain a rhwystrau posibl eraill rhag gwneud cynnydd. Mae llawer o awdurdodau lleol yn amlwg wedi gwneud defnydd da o’r pecyn canllawiau i ddatrys unrhyw anawsterau cychwynnol a gwneud cynnydd da tuag at gyflawni’r amcanion a amlinellir yn nogfen y weledigaeth ar y cyd a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru a ContinYou Cymru. Fodd bynnag, nid oes gan bob awdurdod lleol system asesu risg ar waith sy’n ddigon trylwyr i nodi a chywiro problemau sy’n dod yn sgil defnydd cymunedol o’u hadeiladau ysgol. Mae o leiaf dau awdurdod lleol wedi datblygu a chyhoeddi eu pecyn canllawiau YB eu hunain, ac mae ysgolion yn ei ddefnyddio yn effeithiol.

41 Mae awdurdodau lleol wedi sefydlu ffyrdd effeithiol o rannu gwybodaeth a chyngor gydag ysgolion. Mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud hyn yn bennaf trwy’r gwaith y mae cydlynwyr YB neu swyddogion gwella yn ei wneud yn uniongyrchol gyda’r ysgolion, wedi’i ategu gan gylchlythyrau a chyhoeddiadau perthnasol eraill. Mae bron i hanner yr awdurdodau lleol yn cynnal un gynhadledd YB bob blwyddyn, yn aml gyda chyfranogiad a chymorth ContinYou Cymru.

42 Mae’r dogfennau y mae ContinYou a’u partneriaid wedi’u cyhoeddi, a gwaith swyddogion ContinYou Cymru mewn ysgolion ac awdurdodau lleol, wedi bod yn hynod ddylanwadol wrth annog a helpu ffurfio datblygiad yr YB yng Nghymru.

43 Y prif rwystr sy’n parhau rhag datblygu ymhellach yw methiant awdurdodau lleol i sefydlu systemau digonol ar gyfer monitro ac arfarnu eu cynnydd. Mae ContinYou Cymru wedi rhoi pwyslais sylweddol ar bwysigrwydd sefydlu mesur gwaelodlin o weithgaredd YB, ond nifer fach o awdurdodau sydd wedi llwyddo i wneud hyn. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi’i chael yn anodd mesur cynnydd hyd yn hyn, a sefydlu cyfeiriad addas a gosod targedau mesuradwy ar gyfer datblygu ymhellach.

44 Mae’r ymagwedd gyfredol at gyllid YB yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddefnyddio’r grant mewn amrywiaeth o ffyrdd. O ganlyniad, mae’r manteision i ddisgyblion wedi bod yn amrywiol hefyd. Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, gall disgyblion fynychu darpariaeth gyfoethog y tu allan i oriau ysgol ar y rhan fwyaf o ddiwrnodau ysgol, ac mae cyfleusterau meithrinfa a chymorth ar gyfer rhieni a gofalwyr eraill i gofrestru mewn rhaglenni dysgu teuluol. Ychydig iawn o ddarpariaeth o’r math hwn, os o gwbl, a gynigir mewn rhannau eraill o’r wlad. Yn yr ardaloedd hyn, mae gan ysgolion ffordd bell i fynd cyn dod yn ‘ganolfan un stop’ ar gyfer gwasanaethau cymunedol yn y ffordd y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei rhagweld.

# Atodiad 1:  Astudiaethau achos

## Rhagymadrodd

Mae’r astudiaethau achos sy’n dilyn yn egluro’r modd y mae cyllid YB wedi galluogi ysgolion i sefydlu, cynnal neu gynyddu eu darpariaeth gymunedol.  Nid yw’r grant YB wedi ariannu pob un o’r gweithgareddau a ddisgrifir yn yr astudiaethau hyn yn uniongyrchol.  Mewn rhai achosion, mae’r grant wedi ariannu strwythur gweinyddol canolog sy’n annog ac yn cefnogi ysgolion i ddatblygu eu darpariaeth gymunedol.  Mewn achosion eraill, mae’r defnydd o’r grant i ariannu un agwedd ar y ddarpariaeth wedi galluogi agweddau eraill i ffynnu gyda chymorth o ffynonellau cyllid amgen.  Mae’r astudiaethau achos hefyd yn rhoi enghreifftiau o’r amrywiaeth eang o ddarpariaeth y mae’r grant wedi’i hyrwyddo, sy’n amrywio o brosiect unigol, hynod lwyddiannus mewn un ysgol gynradd bentref i raglen ehangach o weithgareddau YB mewn ysgolion sy’n gwasanaethu ardal ddaearyddol llawer ehangach.

**Astudiaeth achos 1: Ysgol gynradd yn ne Cymru**

**Cyd-destun:** Mae'r ysgol yn gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf yn un o gymoedd de Cymru. Mae ganddi ryw 120 o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed, ac mae llawer ohonynt o gefndiroedd difreintiedig. Mae cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol ac mae gan bron i ddau o bob pum disgybl yn yr ysgol anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth:** Mae gan yr awdurdod lleol weledigaeth glir ar gyfer datblygu YB ac mae'r Cyngor wedi cymeradwyo'r strategaeth YB. Mae'r awdurdod lleol wedi defnyddio grant yr YB i ariannu penodi gweithiwr clwstwr YB ym mhob clwstwr o ysgolion, a chydlynydd YB. Mae'r cydlynydd YB yn gweithio gyda bwrdd rheoli YB yr awdurdod lleol i lywio'r broses o gynllunio, gweithredu, monitro ac arfarnu gwaith YB ar hyd yr awdurdod lleol. Mae'r bwrdd yn cynnwys cynrychiolwyr o benaethiaid ac ystod eang o randdeiliaid a darparwyr gwasanaeth eraill. Mae ganddo gysylltiadau effeithiol gyda'r bartneriaeth Fframwaith a'r bartneriaeth 14-19, yn ogystal â gyda phartneriaid ac asiantaethau eraill. Gall pob ysgol gael mynediad at gymorth y gweithwyr clwstwr YB, er nad yw tua un o bob deg o ysgolion yr awdurdod lleol wedi ymwneud yn uniongyrchol â'r rhaglen YB eto.

**Gweithredu:** Gyda chymorth gan y gweithiwr clwstwr YB lleol, mae'r ysgol a'r awdurdod lleol wedi gweithio gyda'r awdurdod iechyd lleol, Cymunedau yn Gyntaf, y gymdeithas dai leol ac Age Concern i sefydlu prosiect dysgu rhwng y cenedlaethau sydd wedi'i gysylltu â'r cwricwlwm ysgol. Mae'r prosiect yn galluogi disgyblion o Flwyddyn 6 i ymweld â chynllun tai gwarchodol a chynllun tai ymddeol ger yr ysgol, lle caiff trigolion hŷn eu hannog i ateb cwestiynau'r plant a sôn wrthynt am eu hanesion am dyfu i fyny a byw yn y pentref. Mae'r disgyblion yn defnyddio dyddlyfr a chamera tafladwy i gofnodi eu gwaith. Nod y prosiect yw cael effaith uniongyrchol ar y disgyblion sy'n cymryd rhan, trwy ymestyn eu gorwelion i weithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, gan gael gwared ar rwystrau yn ymwneud â'r cenedlaethau a stereoteipiau, a dangos ystod o ddewisiadau gyrfa i'r disgyblion.

**Canlyniadau:** Mae'r prosiect wedi gwella hunan-barch disgyblion ac mae wedi datblygu eu medrau cymdeithasol, yn ogystal â'u gwybodaeth am hanes lleol a'u dealltwriaeth o amgylchiadau'r trigolion. Dywed y gymdeithas dai fod y prosiect wedi cynyddu diddordeb lleol a'r nifer sy'n manteisio ar gartrefi gofal yn gyffredinol, yn ogystal ag yn y cynllun tai yr ymwelodd y plant ag ef. O ganlyniad i'r prosiect, mae'r awdurdod lleol wedi ennill gwobr 'Rhagoriaeth Cymru' Llywodraeth Cynulliad Cymru am ei waith gyda phobl hŷn ac mae'r gymdeithas dai wedi ennill gwobr arfer dda y Sefydliad Tai Siartredig ar gyfer tai a'r gymuned.

**Astudiaeth achos 2: Grŵp o ysgolion yn ne Cymru**

**Cyd-destun:** Mae'r ysgol uwchradd a'r pum ysgol gynradd sy'n ei bwydo yn gwasanaethu cymuned ddifreintiedig ar gyrion dinas fawr. Mae'r ysgolion mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf sydd ag anfanteision economaidd a chymdeithasol sylweddol. Mae gan ychydig dros draean o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim ac mae gan bron i draean ohonynt anghenion addysgol arbennig. Mae lefelau llythrennedd yn yr ardal yn llawer is na chyfartaleddau cenedlaethol.

**Strategaeth:** Mae'r ysgolion yn gweithio mewn partneriaeth â dwy ysgol arbennig leol i ffurfio canolfan ddysgu ar gyfer yr ardal. Mae hon yn un o nifer o ganolfannau dysgu yn y ddinas sy'n darparu sylfaen ar gyfer strategaeth YB yr awdurdod. Mae gan bob canolfan ddysgu fwrdd rheoli gyda chynrychiolwyr o bob ysgol yn yr ardal, ynghyd ag asiantaethau a sefydliadau eraill. Mae'r bwrdd yn gweithio o dan arweinyddiaeth y cydlynydd YB, y mae ei waith yn cael ei ariannu'n rhannol gan ran o grant YB yr awdurdod lleol. Mae'r cydlynydd YB yn gweithio fel rhan o dîm sy'n cyfarfod bob mis ac yn cynnwys y swyddogion canlynol:

- cydlynydd 14-19;
- cydlynydd dysgu y tu allan i oriau;
- cydlynydd y Brifysgol i Blant; a
- chydlynydd cwricwlwm amgen.

Mae'r awdurdod lleol wedi ariannu penodi rheolwr canolfan ddysgu ym mhob ysgol uwchradd i weinyddu a chefnogi datblygiadau yn y dyfodol.

**Gweithredu:** Fe wnaeth y ganolfan ddysgu sy'n destun yr astudiaeth achos hon ddefnyddio cyllid grant i ddarparu amgylchedd diogel ac addas ar gyfer ystod o weithgareddau bro. Yn ystod 2006/2007, roedd y nifer fawr o brosiectau'r ganolfan yn cynnwys:

- datblygu gwefan gymunedol;
- cyfrannu erthyglau i'r cylchlythyr cymuned leol;
- cyfranogiad cynyddol mewn digwyddiadau cymunedol, fel yr ŵyl haf leol;
- cwrs coginio iach rhwng y cenedlaethau;
- prosiect trosglwyddo rhwng y cenedlaethau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 6;
- TG ar gyfer dinasyddion hŷn;
- cwrs diogelwch ar y ffordd ar gyfer beicwyr;
- cwrs rheoli dicter;
- taith gyfnewid ieuenctid i Stuttgart;
- grŵp gweithredu maeth ysgolion sy'n hyrwyddo bwyta'n iach yn yr ysgol;
- prosiect gweithredu cymdeithasol a oedd yn codi ymwybyddiaeth am beryglon gwneud twyll alwadau ffôn i'r gwasanaethau brys; a
- phrosiect bywyd gwyllt a gwarchodfa natur.

Mae darpariaeth yn ysgolion cynradd yr ardal yn cynnwys:

- rhandir cymunedol a phrosiectau gardd sy'n galluogi disgyblion ac oedolion yn y gymuned i dyfu llysiau a chynnyrch arall;
- cyfranogiad cynyddol disgyblion mewn cynghorau ysgol a chymuned;

- gweithdy rhagflas mathemateg ar gyfer rhieni;
- "Camau at Ddod yn Gynorthwy-ydd Addysgu" (paratoi ar gyfer cwrs a achredir gan y RhCA);
- tîm ynni ysgol (monitro'r defnydd o ynni a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy);
- darparu sied feiciau i annog mwy o ddisgyblion i feicio i'r ysgol;
- prosiect tecstilau rhwng y cenedlaethau;
- dosbarthiadau llythrennedd rhieni a phlant;
- rhaglenni chwarae ac iaith; a
- 'Chlwb Cysylltiadau Iach' sy'n darparu byrbrydau iach ar gyfer plant oedran meithrin.

Daw'r cyllid ar gyfer llawer o'r prosiectau o ffynonellau fel Cymorth, Cymunedau yn Gyntaf, y cynllun ysgolion iach, Grant Hyrwyddo Dysgu a Cymunedau@eigilydd. Mae rhai prosiectau yn cynnwys gwaith partneriaeth, er enghraifft, gyda Gyrfa Cymru, yr heddlu cymunedol, tîm lleihau llosgi bwriadol a Media4Schools.

**Canlyniadau:** Mae disgyblion yn yr ardal wedi dechrau ymwneud yn fwy â'r broses o wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau eu hunain a bywydau eu cymuned leol. Maent hefyd wedi ymwneud yn fwy â dysgu y tu allan i oriau ysgol yn gyffredinol ac mewn prosiectau artistig a diwylliannol yn benodol. Mae'r gweithgareddau YB wedi helpu codi ymwybyddiaeth disgyblion am bwysigrwydd cynnal ffyrdd iach o fyw, ac am faterion yn ymwneud â datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang. Mae'r gymuned wedi elwa ar fynediad cynyddol at gyfleusterau ysgol.

**Astudiaeth achos 3: Ysgol gynradd yng ngogledd Cymru**

**Cyd-destun:** Mae gan yr ysgol 80 o ddisgyblion rhwng 7 ac 11 oed. Mae gan ryw ddau o bob pump o'r disgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim ac mae gan ryw hanner ohonynt anghenion addysgol arbennig.

**Strategaeth:** Mae'r ysgol yn seilio'i gwaith ar ddiffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru o ysgol fro (Cylchlythyr 34/2003) ac ar y saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 'Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau' (2004). Mae'n ystyried bod ei gwaith yn gynhwysol, yn canolbwyntio ar bobl o bob oedran a'u cymunedau, ac nid yn unig ar yr ysgol a'i disgyblion. Nod yr ysgol yw bod yn gatalydd ar gyfer newid barn y gymuned leol am ddysgu.

Cafodd yr ysgol £24,500 dros ddwy flynedd o'r grant YB: £18,500 yn 2005-2006 a £6,000 yn 2006-2007. Defnyddiodd yr ysgol grant y flwyddyn gyntaf, ynghyd â £5,000 o'i chronfeydd ariannol wrth gefn ei hun, i addasu un ystafell i'w defnyddio yn ganolfan ddysgu i deuluoedd ac i drawsnewid rhai ystafelloedd eraill yn ystafell gyfrifiaduron i'r ysgol a'r gymuned ei defnyddio. Gwariodd grant y flwyddyn ganlynol ar adnoddau ar gyfer yr ystafell TGCh a'r ystafell ddysgu i deuluoedd.

Mae'r ysgol wedi cael cryn dipyn o arian o ffynonellau eraill i gefnogi ei gwaith. Mae'r ffynonellau hyn yn cynnwys:

- grant Loteri trwy'r cyngor cymuned i helpu datblygu'r ystafell TGCh at ddefnydd cymunedol;

- cyllid RHAGORI Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella medrau llythrennedd a rhifedd gan ddefnyddio adnoddau rhyngweithiol; a
- chronfa elusennol yng Ngogledd Cymru sy'n helpu cyfoethogi profiadau disgyblion sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig.

**Gweithredu:** Mae'r cyllid o'r holl ffynonellau hyn wedi galluogi'r ysgol i sefydlu a chynnal y gweithgareddau canlynol:

- cyfleusterau TGCh sydd ar gael i'w defnyddio gan yr ysgol a chan y gymuned ar adegau dynodedig;
- cyfleusterau dysgu teuluol ar un bore bob wythnos;
- clwb cyfrifiaduron ar gyfer merched am awr yr wythnos ar ôl yr ysgol, wedi'i gefnogi gan ddisgyblion Blwyddyn 7 sy'n gyn-ddisgyblion o'r ysgol; ac
- ymweliadau gan ddisgyblion ag amgueddfeydd a chanolfan addysg awyr agored.

Defnyddiodd yr ysgol gyllid grant YB, yn unol â'r meini prawf perthnasol a amlinellir yng Nghylchlythyr 31/05, ar gyfer costau cychwyn prosiectau, y byddai'r ysgol wedi ariannu'r costau rhedeg o ffynonellau eraill.

**Canlyniadau:** Mae gwaith YB yr ysgol wedi helpu gwella ymddygiad disgyblion a'u hagweddau at ddysgu, ac mae wedi meithrin cysylltiadau a pherthynas well â'r gymuned leol.

Mae cyllid elusennol wedi galluogi'r ysgol i fynd â grwpiau o ddisgyblion, y mae gan rai ohonynt anawsterau ymddygiad, ar ymweliadau ag amgueddfeydd a chanolfan addysg awyr agored. Mae'r ysgol wedi gweld gwelliannau sylweddol yn agweddau ac ymddygiad llawer o ddisgyblion o ganlyniad i'r profiadau cymdeithasol ac addysgol a gawsant o'r ymweliadau hyn.

Mae sefydlu cyfleusterau TGCh yn ganolfan aml gyfrwng wedi galluogi'r ysgol i gynnig cyfleoedd i rieni, neiniau a theidiau a gofalwyr eraill ddatblygu medrau mewn defnyddio TGCh, mewn rhai achosion trwy weithio gyda'u plant eu hunain. Mae'r awdurdod lleol wedi rhoi cymorth ar gyfer defnydd cymunedol o'r cyfleusterau fel rhan o'i gynllun Dysgu Teuluol.

Mae'r cyfleusterau TGCh newydd wedi galluogi'r ysgol i gynnal clybiau cyfrifiaduron ar ôl yr ysgol, gan gynnwys clwb ar gyfer merched yn unig – "CC4G" (Clwb Cyfrifiaduron i Ferched). Mae'r ysgol yn cynnig ei chyfleusterau TGCh i'r ysgol fabanod sy'n ei bwydo ei defnyddio un bore'r wythnos. Ar bob adeg arall yn ystod yr wythnos, mae'r cyfleusterau ar gael i'w defnyddio gan ddisgyblion yr ysgol ei hun. Mae'r ysgol eisoes wedi sylwi ar welliant yn nysgu'r disgyblion o ganlyniad uniongyrchol i'r ddarpariaeth TGCh well.

**Astudiaeth achos 4: Canolfan ddysgu gymunedol yn ne orllewin Cymru**

**Cyd-destun:** Mae'r ganolfan ddysgu gymunedol wedi'i lleoli mewn ysgol bentref gymunedol a sefydlwyd yn wreiddiol fel ysgol gyfun ddwyieithog 11-18 oed. Mae'r ysgol yn gwasanaethu dalgylch eang ac yn derbyn disgyblion o ryw 30 ysgol gynradd.

**Strategaeth:** Un o brif strategaethau addysg yr awdurdod lleol oedd sefydlu teuluoedd o ysgolion fel cymunedau addysgol. Mae'r strategaeth hon wedi'i chysylltu'n agos â strategaethau a chynlluniau allweddol eraill yr awdurdod. Nodau'r strategaeth yw:

- gwella cyflawniad a chyrhaeddiad dysgwyr ar draws ystod eang o weithgareddau addysgol;
- gwella'r broses drosglwyddo ar gyfer dysgwyr o un sector addysg i'r nesaf;
- hyrwyddo cynhwysiad a mynediad i addysg; a
- darparu gwasanaethau fel cymorth disgyblion, cymorth ymddygiad a gofal cymdeithasol mewn teuluoedd o ysgolion.

Mae'r awdurdod lleol yn ariannu'r cydlynydd ysgolion cymunedol o'i gyllideb graidd ei hun. Mae wedi defnyddio grant YB i ariannu cydlynydd Dysgu y Tu Allan i Oriau Ysgol, sydd hefyd yn gydlynydd 14-19 yr awdurdod lleol.

**Gweithredu:** Gall y gymuned leol ddefnyddio cyfleusterau ysgol fel y llyfrgell, theatr/sinema, caeau chwarae a'r ganolfan iechyd. Mae'r ysgol hefyd yn darparu canolfan TGCh ac e-ddysgu, cyfleusterau chwaraeon dan do (gan gynnwys pwll nofio), a chanolfan gwasanaeth integredig i blant. Mae'r ysgol uwchradd yn rhannu ei champws â'r ysgol gynradd ardal a sefydlwyd yn dilyn uno tair ysgol gynradd leol. Gan fod y campws wedi cael ei ddylunio ar gyfer defnydd cymunedol yn y cyfnod cynllunio, fe wnaeth yr awdurdod lleol ariannu'r costau adeiladu cyfalaf. Mae'r ganolfan ddysgu wedi elwa ar arweinyddiaeth gref a chyfeiriad strategol a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol dros gyfnod o sawl blwyddyn. Fodd bynnag, mae gwaith YB bellach wedi'i ymgorffori cystal ym mywyd a gwaith y ganolfan fel na fu angen iddi gael llawer o gymorth gan swyddogion YB yr awdurdod lleol ac ni wnaeth gais am gyllid YB yn 2006-2007.

Mae'r sefydliadau a'r gwasanaethau canlynol, ymhlith eraill, wedi'u lleoli ar y campws:

- Menter Iaith;
- swyddog datblygu sirol Urdd Gobaith Cymru;
- swyddog gyrfaoedd;
- swyddog datblygu'r celfyddydau;
- canolfan iechyd;
- gorsaf heddlu; a
- gorsaf dân.

**Canlyniadau:** Mae nifer fawr o sefydliadau cymunedol lleol yn defnyddio'r campws i ddarparu gweithgareddau cymdeithasol, diwylliannol, hamdden ac eraill ar gyfer plant, pobl ifanc ac oedolion. Yn ychwanegol, mae'r campws yn cynnig ystod eang o gyrsiau addysg oedolion, y mae llawer ohonynt yn arwain at ardystio. Mae dimensiwn cymunedol yr ysgol wedi helpu hyrwyddo cysylltiadau cwricwlaidd defnyddiol rhwng disgyblion yr ysgol ac oedolion yn y gymuned. Mae'r campws bellach yn hawdd i'w ddefnyddio ar gyfer rhieni ac oedolion eraill, ac mae'n darparu amgylchedd diogel ar gyfer disgyblion. O ganlyniad, mae disgyblion yr ysgol yn elwa ar gyrsiau a gweithgareddau cyfoethogi ym meysydd y cwricwlwm fel Cymraeg, drama a TGCh. Mae dimensiwn cymunedol yr ysgol hefyd yn darparu sylfaen dda ar gyfer elfen cyfranogiad cymunedol Llwybrau Dysgu 14-19.

**Astudiaeth achos 5: Ysgol gynradd yn ne orllewin Cymru**

**Cyd-destun:** Mae'r ysgol wedi'i lleoli mewn tref fechan ac mae'n gwasanaethu ardal Cymunedau yn Gyntaf sydd dan anfantais yn gymdeithasol ac yn economaidd. Mae dros 200 o ddisgyblion ar y gofrestr, rhwng 3 ac 11 oed. Mae gan ryw ddau o bob tri disgybl hawl i gael prydau ysgol am ddim ac mae gan ryw hanner ohonynt anghenion addysgol arbennig.

Daw tua un o bob pump o'r disgyblion o gefndiroedd Sipsi Romani. Mae gan yr ysgol ganolfan sy'n darparu addysg ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsi Deithwyr o oedran ysgol uwchradd. Mae'r ganolfan, a sefydlwyd ym 1996, hefyd yn darparu cyfleusterau ar gyfer y gymuned Sipsi Deithwyr yn gyffredinol.

**Strategaeth:** Cynhwysiad yw'r prif ffactor sy'n ysgogi gwaith YB yn yr ysgol. Ei nod yw annog Sipsi Deithwyr i gymryd rhan fel aelodau llawn o'r gymuned, i leihau rhwystrau hanesyddol rhwng cymuned y Sipsiwn a heddweision, ac i annog datblygu grwpiau cynrychioliadol integredig mewn cymunedau. Mae un Sipsi Deithiwr yn aelod o fwrdd llywodraethwyr yr ysgol. Mae'r ysgol yn gweithredu fel cyfrwng wrth helpu Cymuned y Sipsi Deithwyr i sefydlu ymddiriedaeth gydag asiantaethau lleol. Mae'n gweithredu fel gwasanaeth eirioli ar ystod o faterion, er enghraifft, cael pasportau neu hawlio budd-daliadau, ac annog cyfranogiad yn y broses ddemocrataidd. Trwy hyn, nod yr ysgol yw integreiddio'r Sipsi Deithwyr i fywyd prif ffrwd eu cymuned a rhoi parhad o ran addysg i'w plant, gan eu helpu i ennill cymwysterau a gydnabyddir yn genedlaethol a chael swydd.

**Gweithredu:** Yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r ysgol wedi defnyddio cyllid grant YB, ynghyd â rhai o'i hadnoddau ariannol ei hun, i addasu a pharatoi ystafelloedd yn yr adran iau ar gyfer eu defnyddio mewn prosiect dysgu cymunedol mewn partneriaeth â Chymunedau yn Gyntaf. Yn sgil yr adnewyddu, cafwyd cyfleusterau cyfrifiadurol, cegin a man dysgu amlddefnydd. Nod yw prosiect yw darparu ystod o gyfleoedd ar gyfer oedolion lleol i ymgymryd â dysgu. Yn ystod tymor yr haf 2007, er enghraifft, cofrestrodd 146 o oedolion ar gyfer ystod eang o gyrsiau a oedd yn cynnwys:

- llythrennedd;
- rhifedd teuluol;
- TGCh;
- Cymraeg i ddechreuwyr;
- theori gyrru;
- cymorth cyntaf;
- therapi harddwch; a
- choginio.

**Canlyniadau:** Cynhaliwyd y gyfradd cadw ar gyfer y cyrsiau hyn ar ryw 95%, ac mae'r ganolfan yn amcangyfrif y gallai hyd at ddau draean o ddysgwyr fynd ymlaen i ennill cymwysterau achrededig. At ei gilydd, mae 25 o oedolion sy'n Sipsi Deithwyr wedi cofrestru ar ddosbarthiadau yn y prosiect. Mae'r ganolfan wedi cael cryn lwyddiant wrth alluogi dysgwyr oedran uwchradd sy'n Sipsi Deithwyr i barhau â'u haddysg yn y ganolfan, yr ysgol uwchradd leol neu'r coleg addysg bellach lleol ac ennill cymwysterau cydnabyddedig.

## Atodiad 2: Dosraniad cyllid YB i ysgolion mewn awdurdodau lleol unigol

Yn 2007, roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol gwblhau a dychwelyd adroddiad YB diwedd blwyddyn ar gyfer 2006-2007. Roedd yr adroddiad yn gofyn i'r awdurdod lleol restru'r ysgolion a oedd wedi defnyddio grant YB 2006-2007 i gefnogi datblygiad gwasanaethau, gweithgareddau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned. O ganlyniad i'r ffordd y cyflwynodd 13 o awdurdodau lleol y wybodaeth hon, mae modd cyfrifo cyfrannau'r ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd a ddefnyddiodd gyllid YB ym mhob un o'r awdurdodau lleol hynny. Nid oes modd dangos y wybodaeth gyfwerth ar gyfer gweddill yr awdurdodau lleol gan nad oedd eu hadroddiadau yn nodi'r ysgolion cynradd ar wahân.

Mae'r tabl isod yn dangos canrannau'r ysgolion ym mhob sector a ddefnyddiodd gyllid YB yn 2006-2007 i gefnogi datblygiad gwasanaethau, gweithgareddau a chyfleusterau ar gyfer y gymuned.

Sylwer: *Mae cyfanswm yr ysgolion cynradd ym mhob awdurdod lleol yn amrywio o 29 i 123. Mae cyfanswm yr ysgolion uwchradd fesul awdurdod yn amrywio o 4 i 20.*

| Awdurdod lleol | Ysgolion cynradd sy'n defnyddio cyllid YB | Ysgolion uwchradd sy'n defnyddio cyllid YB |
|---|---|---|
| A | 5% | 20% |
| B | 7% | 40% |
| C | 7% | 13% |
| Ch | 10% | 80% |
| D | 10% | 33% |
| DD | 10% | 31% |
| E | 20% | 75% |
| F | 24% | 20% |
| FF | 25% | 75% |
| G | 26% | 38% |
| NG | 54% | 43% |
| H | 65% | 50% |
| I | 68% | 63% |

Mae gan bob awdurdod lleol yng Nghymru ac eithrio un o leiaf un ysgol arbennig ac mae 43 o ysgolion arbennig i gyd. Dim ond tri awdurdod lleol a ddyrannodd gyllid YB i ysgolion arbennig. Dyrannodd un awdurdod lleol gyllid YB i un o'i dair ysgol arbennig a dyrannodd awdurdod arall y cyllid i ddwy o'i dair ysgol arbennig. Dyrannodd yr awdurdod arall gyllid YB i'w unig ysgol arbennig.